
# Llên natur

**Bwletin 125 Gorffennaf 2018**


gan gynnwys

## Y Bwrdd Natur

Adnodd i athrawon a rhieni



Gwynant Pierce, Llandwrog 27 Mai 2018



Keith O'Brien, Sgwarnog a Blodau Menyn - Trawsfynydd 7 Mehefin 2018

## Hen benillion...

Ysgrifennwyd y bennill isod yn llyfr ymwelwyr Gwesty Penygwryd tua 1876. O ddiddordeb i Dewi Jones (Penygroes) efallai?:

*But think just of the plants which stuff'd our box, old Yarrel's gift*
*And of those which might have stuff'd it if the clouds had given a lift:*
*Of trampling bogs, and climing cliffs, and shoving down stone fences,*
*For Spiderwort, Saussurea and Woodsia Ilvensis.*


**Gwyn Williams**



Lili'r Wyddfa yw spiderwort.

Dyma Dewi efo'i "fasgiwlwm" (blwch cadw sbesimenau planhigion), gwrthrych i bob pwrpas - o'i ddefnyddio i'w briod waith - sy'n anghyfreithlon erbyn hyn gan fod casglu planhigion o'r gwyllt bellach yn anghyfreithlon).

Dyma ran o erthygl am blanhigion Gogledd Cymru yn son am Frwynddail y Mynydd, hefyd trwy law Gwyn.



Anthericum Serotina—Spider Wort. This rare plant is to be found nowhere in Britain unless upon Snowdon, Crib y-ddegil, near Llanberis, and Cwm Idwal, Bethesda, where it is to be found over a torrent, and cannot be approached unless by the assistance of a rope; also, at Twll-du, a summit of Glyder Fawr.—Hooker.

**The North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality 11 Medi 1858**

Dyma Margaret Roberts:

'Dwi'n deall yn ôl fy Nain mai 'guides' ar y Wyddfa oedd fy nghyn deidiau, yn arwain ysgolheigion i fyny i astudio'r planhigion Alpaidd gaed yno. Byddai fy mam yn dweud reit wawdlyd mai tincars oedde nhw.'

Mwy am gynnwys llyfrau ymwelwyr y cyfnod a'r ardal yma Mwletin 85

## Heb weld cymaint o'r Athena ers blynyddoedd



meddai Einir Wyn, Niwbwrch

## ...a hen gantrefi



Heddiw rhwng trwyn Abermenai a'r brif fynedfa i draeth Llanddwyn, ar drai, erioed wedi gweld o'r blaen ansawdd clai y gellir mowldio fel Blutak! Unrhyw syniadiau? **Einir Wyn**

Dyma Graham Williams (cyn Warden CNC y tywyn:

Mae haen o glai morol o dan y system ôll 'sw ni'n tybio; mae lefelau traeth yn isel iawn i hwn ddod i'r golwg! Mae rhai degawdau ers i hwn fod yn weladwy ar draethau Niwbwrch..... hwn sydd oddi dan y tywyn ac yn galluogi dŵr i sefyll am gyfnodau hir yn y pantiau yn y gaeaf mewn system tywod.

Ar ôl oes y iâ ddaru lefel y môr godi dros 100 medr dros gyfnod o 4000 o flynyddoedd. Mae'r tirlun wedi bod yn ddeinamig iawn dros y cyfnod hwnna gyda thwyni, traethau gro, aberoedd ayyb ar dro. Lle mae twyni isel a gro yn datblygu mae amodau ffafriol i forfeydd heli ddatblygu tu cefn i unrhyw rhwystr i donnau môr. Lle mae'r môr yn gorchuddio'r tir isel mewn ardaloedd cysgodol mae gwaddod yn hel a creu morfa heli. Felly, morfa heli a'r hen Aber ydi y clai yma, rhai miloedd oed mae'n debygol.

**Graham Williams**

A meddai Sian Charlton:

Mae llawer o rywbeth tebyg ar y traethau o gwmpas Abertawe sydd i weld pan mae'r tywod yn symud. Mae llawer o goed hynafol i weld hefyd. Cymerwch ofal. Os cami di yn hwn byddi di'n sownd a gei di andros o drafferth i ddianc (i brofiad personol!)

**Sian Charlton**

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd**
**(Rhif Elusen: 1126027)**
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk

## Cofnod (personol) y mis



**Yn y trap gwyfynod 27 Mai**, Waunfawr, gwyfyn nas cefais erioed o'r blaen, ac nad oeddwn yn ei adnabod. Dyma anfon SOS allan trwy Cymuned Llen natur i wyfynwyr eraill fy helpu. Dyma'r ymateb, y gyntaf o Gernyw, yn y Gernyweg:

*Kynsa* *<u>Acronicta menyanthidis</u>* *menyanthidis; Light Knot grass yn Sowsnek.* **Loveday Jenkin**

Cyfeiriodd Loveday yn ei hail frawddeg i wyfyn hyfryd a ddaliwyd hefyd yn yr un helfa, sef gwyfyn y cadno.



Dyma ddywedodd:

*Nessa Macrothylacia rubi. Fox moth yn Sowsnek.*

A dyma fo (chwith) - dim gwobrau am ddeall ei Chernyweg!

Ond yn ôl at y cyntaf: dyma Norman Lowe o Aberhonddu (arbenigwr a threfnydd Prosiect Gwyfynod Gerddi, Cymru):

*"Very nice. Light Knot Grass."*

**bidog ffa'r gors eg llu. bidogau ffa'r gors**
*<u>Acronicta menyanthidis</u>*
*Light Knot Grass*

Mi fyddaf yn ei gofio tro nesa!

## Copyn cranc gwyn



**Hwn wedi tynnu fy sylw yn yr ardd pnawn 'ma.** Oes enw i greadur bach mor dlws? ( Mehefin 16 2018 rhwng Botwnnog a Sarn!).

**Morwen Jones**


Beibil Cops yn dweud mai *Misumena vatia* ydi'o, math o gopyn-cranc. Digon ar y we amdano - Gwgler!

Dipyn o jacpot dwi'n meddwl Morwen!:

*"Yes, this is a really good record for North Wales, and we are just about at this species northern limit in Britain (RSPB Conwy). Do we have a grid reference and date for this one?"*

**Mae'r pry copyn rwan ar gof a chadw gan Cofnod**

## Terfysg a gwynt ofnadwy yn 1956



Dear Elizabeth Tuesday 31/7/56.
Thanks for your P.C. I am writing this by return of post. I hope you enjoyed yourself in camp. We had nice weather until end of last week we had thunderstorms and the wind has been terrible. Will you be going to the same school? I am watching cricket on T.V. Glenys went back with Nerys on Saturday. Nerys has gone much better. When will you be coming up to Builth. Well I must close now
Love
Frances xx
P.S. Are you playing tennis. I have a new racket.



***Tuesday 31 7 56 ...We had nice weather until end of last week*** **[c27 Mehefin 1956, ar wyliau yn Llanfair ym Muallt]** ***we had thunderstorms and the wind has been terrible....***

'Ofnadwy oedd y gwynt' meddai Frances. Pa mor 'ofnadwy' tybed?

Abermaw 31 7 1956: "*we are not blown away?..a bit rough?*" **(Cerdyn Post arall)**

Cymru ayb. "*29 July [1956]: severe storm. Cyclonic situation, depression (below 980) moved northeast over central England into the North Sea, severe to storm-force southerly gales affected south England, Wales and the Channel, gales later turned northeasterly, many shipwrecks, great loss of life, landslides and floods, widespread damage, many trees blown down in south Britain.*

**(Kington, J. (2002). Climate and Weather Collins)**

Dyma un o sylwadau dyddiadurwyr yn y gogledd:

Padog: "29 Gorff: 28. Glaw taranau. Tocio cloddiau y ffordd o dan cae ty a thrimio gwrychoedd. Bwydo cywion ieir 100 ohonynt. Trwm, trymedd , glaw." **Dyddiadur DO Jones**

**Cofnod 'penblwydd' y tywydd hwn:**
**'Cefais fy ngeni am 2.30 y bora ar 29.7.56 yn Bangor yn ganol storm o fellt a tharannau - debyg iawn fod y wlad i gyd wedi cael ei effeithio! Cofiwch - wyddwn i ddim byd am hun! Bu raid i'r teulu droi yn ôl wedi cyrraedd Dyffryn Ogwen [o'r ysbyty mamolaeth] i fynd on drwy Llanberis gan fod tir-lithriad wedi cau y ffordd ymlaen am Bangor oherwydd y tywydd ar y nos Sadwrn/bore Sul.'** **Edwina Fletcher**


Gyda llaw mae yna gofnod tywydd "penblwydd" arall yn yr archif:


Rhinogydd 9 5 1918: "Mewn cyfweliad gyda William Owen o Ddyffryn Ardudwy ar y 21 Tachwedd 2010 ar raglen Dei Tomos, soniodd WO am ei fam Rhinogwen yn cael ei geni ar yr un diwrnod a Kyffin Williams pan oedd eira ar y Rhinogydd gerllaw - felly gafodd ei henw, RHINOGWEN."


Mae pennau blwyddi yn gofnodion diffael a chysáct ac yn gofiannau teuluol da. OES RHYW GYSYLLTIAD Â'R TYWYDD YM MHENA BLWYDDI EICH TEULU CHI?


## Gwanwyn eleni

**Roedd Gwanwyn eleni yn un cofiadwy**. Roedd Ionawr yn araf i wneud ei gyfraniad gyda'r tymeredd isel yn cystadlu efo 2001 am safle mwyaf araf mis Ionawr ers 1995. Ond mi gododd y tymheredd ar yr 22 Ionawr (graff 1). Erbyn mis Mawrth (graff 2) roedd eleni yn cystadlu efo 2010 fel yr oeraf. Erbyn diwedd mis Ebrill (graff 3) roedd y gaeaf hwnnw wedi achub ei gam ei hun a 2001 ddaeth yn ôl fel yr oeraf. Ond erbyn diwedd mis Mai (graff isaf), 2013 gafodd y record o'r gwanwyn hwyraf a 2007 y cynharaf.




## Pry hofrol Pen yr Ole Wen



Ar gopa Pen yr Ole Wen heddiw 22 Mehefin. **Keith Jones**

Mae pryfed llawr gwlad ar lefel uchel yn awgrymu mewnfudo. Ond mae'n debyg yn yr achos yma pryfyn hofren o'r enw *Sericomyia silentis* - DDIM yn fewnfudwr ond yn enwog am gr-wydro ymhell o'i safleoedd bridio amlwg.

## Pry hofren Pen yr Ole Wen





Cachu piws ar lethrau Pen yr Ole Wen ddoe. Wedi bod yn edrych ers ychydig o wyth-nosau. **Keith Jones**

Byddwch grâff am faw piws - PWY wnaeth, PA FIS a PHA FWYD oedd yn biws?

## Enwau torfol Gwyn Thomas



Tawelwch o löynnod
Clegar o wyddau
Senedd o asynnod
Cytiad o ieir
Cecian o biod
Slefriad o nadroedd
Calchiadau o wylanod
Pardduaid o jacdoeau
Brenhiniaeth o eryrod
Twnelaid o foch daear
Gwynfyd o elyrch
Hetiad o sguthanod
Slachtar o gigfrain (O'r Saesneg *slaughter* y daw hwn)
Prysurdeb o forgrug
Cymanfa o gathod
Cyfrinfa o lwynogod
Llysnafeddiad o falwod
Cawodydd o ddrudwy
Gormes o eliffantod




Alun Williams Simbabwe

Sgrech o fwncwn
Peiloniad o jiraffs
Llinellau o deigrod
Jersi o sebras
Esgobaeth o bengwyniaid
Smiciadau o lygod
Tuniad o sardîns
Sglein o frithyll
Hwtiad o dylluanod
Llanast o golomenno



**Beth am ychwanegu eich enwau torfol eich hun i anifeiliaid eraill?**

## Helfa fawr Hydref 1904



GREAT WELSH FISH CHASE.

A good fish story comes from North Wales. From Beaumaris to Barmouth the glut of whitebait is prodigious. The surface of the water along the coast is "deeply tinged by their mass of colour," and the spectacle is visible for a considerable distance.

In the wake of these fish are myriads of mackerel, which are so intent on devouring the whitebait that they refuse to be disturbed by the incursions into the sea of men, women and children armed with nets, buckets, baskets, and other articles, for the purpose of scooping them up.

The mackerel exhibited wonderful powers of generalship. They "shepherded" their prey into a small dock near Anglesey Castle, and then there was fearful carnage. The mackerel pounced on the whitebait, and snapped them up in thousands.

Wide-awake spectators saw their chance. They launched a boat, and in turn "snapped up" thousands of both kinds of fish.

Persons who could not seize boats turned out with rods and lines, and ranged themselves on Bangor Pier and other suitable spots, angling for the mackerel. Their bait was whitebait, which had previously been scooped out of the sea by boys with old hampers.

Flocks of gulls hovered over the sea where the shoal was, and glutted themselves with the fish.

Mackerel are cheap to-day round about Bangor—eight a penny.

Ym mhapur yr *Evening Express and Evening Mail* 3 Hydref 1904. Disgrifio'r ffordd y mae mecryll yn dilyn silod i'r lan ddiwedd yr haf.

Diddorol - ac yn parhau'n ddigwyddiad achlysurol ar draeth Cricieth; a thraethau eraill, mae'n siwr... mecryll yn hel y pysgod bach at y glannau a'u bwyta'n eu miloedd. Ond nid llymriaid chwaith (*sandeels*)?; sil / sil-y-don / gwynbysg (?) yw'r whitebait yma, onide? Ac wrth gwrs mae cael mecryll yn heidio ar ôl eu hysbail yn denu helwyr llawer mwy dawnus nag ambell i sgotwr a'i enwair neu ei fwced ar y traeth... sef llamhidyddion a dolffiniaid Bae Ceredigion. Gyda llaw, roedd na rai cannoedd o gyrff sil / sil-y-don / gwynbysg (sef 'whitebait') wedi'u golchi fyny ar brif draeth Cricieth llynedd - ond nid oedd gennyf fy nghamera wrth law!

**Hugh Gwynn**

**Dilynwch a chyfranwch i Cymuned Llên Natur ar Facebook**

## Ewyn don a dyr...

Beth tybed sydd yn achosi'r ffroth yma hyd lannau yr Afon Conwy pob hyn a hyn. Mae wedi bod yn reit ddrwg y ddau ddiwrnod olaf yma 10fed a'r 11eg o Fehefin 2018.


**Margaret Roberts**



Mae tymhorau i algae y mor, ac hwn ydi un o algae cychwyn yr haf. Daw hwn tua amser yma o'r flwyddyn fel mae'r môr yn cynhesu ac oriau haul yn cynyddu. Mae'n naturiol, ond dim yn edrych nac arogli'n rhy dda, yn enwedig pan mae'r gwynt yn ei chwythu at y glannau gan greu yr ewyn nodweddiadol. Daw algae gwahanol yn hwyrach yn y tymor ac fe ddiflanith hwn.

**Aled Euros Jones**

## Chwilen bannog Maiorca



Be ydi hwn dudwch? Roedd o'n gwneud swn bach digri, debyg i gywion mewn nyth. Mallorca 15.6.18

**Non Prys Thwaite**

Welis i llwythi yn Mallorca hefyd. Enw yw *The Fuller* (<u>*Polyphylla fullo*</u>), teulu'r *Chafer beetle*.

**Nerys Haynes**

## 'Mynwent' eiconig

**'Pentref gwyliau' Pedras d'el Rei a 'mynwent y llongau tiwna'.** Bu'r dywydiant tiwna'n allweddol i economi'r Algarve, ond pan gollodd y llongau bychain lleol y frwydr gyda'r llongau masnachol enfawr, penderfynwyd "claddu" nifer fawr o'r angorau yn nhwyni traeth Barril, fel cofeb i'r dyddiau da a'r bwrlwm o weithgarwch a fu...mae'n olygfa drawiadol.

**Hugh Gwynne**






## Bran lwyd: Y fran lwyd



Dyma welodd Ann Griffith Williams yn ddiweddar, yn Stavanger, Norwy.

BRAN LWYD chwaer agos ein bran dyddyn ni ond yn cymryd ei lle ym mharthau'r gogledd. Mae hyn yn rhoi esgus i atgyfodi erthygl cynnar iawn (rhifyn 3) yn y Bwletin. Erthygl gan Swyddog y Fyddin am yr adar ar faes y gad drannoeth cyflafan y Somme fel tasa fo wedi bod yn rhyw fath o bicnic.




Dyma fap a ddaeth oddiwrth Gwyn Jones yn dangos y ffin yn gwahanu y ddwy is-rywogaeth - y fran dyddyn a'r fran lwyd. Mae Gwlad Belg ym mharth y fran dyddyn heddiw. Isod mae llun Canol Oesol hefyd yn dangos y fran lwyd yng Ngwlad Belg.



Dyma (ar y dde) fanylyn o lun Pieter Breughel yn dangos brain llwydion yn y gaeaf yng Ngwlad Belg. Un ai mae hen ddosbarthiad y fran lwyd wedi newid ers yr y Rhyfel Byd Cyntaf.... neu mae un yn anghwir. Oes rhywun yn cofio pa frain welson nhw ar ymweliad i Fflandrys?

## Albwm gwyfynod Ysgol San Siôr: 2018 hyd yma

Bu plant Ysgol San Siôr, Llandudno, y trapio gwyfynod yn rheolaidd ers ddechrau'r flwyddyn dan ofal eu prifathro Ian Keith Jones. Maent yn cofnodi pob un newydd fel mae'n ymddangos yn y trap. Dyma ddetholiad ohonyn nhw yn y drefn y cawson nhw eu dal, y rhai mwyaf diweddar yng ngwaelod yr albwm.




Gwalchwyfyn y Poplys
Bidog Llwyd
Gwensgod Gwar Rhesog
Corrach Cleisiog
Pioden fach
*Anania strachydalis*
Gwyfyn y mêl
Brith y Cyrens
Rhisgl yr Helyg
Brychan arian
Brychan rhesen ddulas
Corrach Tywyll
Ton Sidanwe (*Satin Wave*)
Pwtyn Brith (*Mottled Pug*)

**Fedrwch chi leoli'r enw wrth y gwyfyn cywir?**

Rhowch gynnig arni - chwiliwch yn y Bywiadur am y rhai rydych yn methu.



# Amser y cymer 'stwff' i ddatgymalu




Addaswyd o gyhoeddiad...

Rotary